# Adolygiad o Effaith Blynyddol Menter ac Entrepreneuriaeth 2024/25

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn parhau i annog menter ac entrepreneuriaeth wrth wraidd cenhadaeth y sefydliad, gan gydnabod y rôl hanfodol mae arloesi, creadigrwydd, a meddylfryd entrepreneuraidd yn chwarae wrth drawsnewid bywydau, cryfhau cymunedau, a chefnogi twf economaidd. Wedi'i harwain gan ei chenhadaeth i "**Drawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau**", mae'r Brifysgol wedi parhau i fuddsoddi mewn gweithgarwch menter sy'n grymuso myfyrwyr, graddedigion, staff a phartneriaid allanol i ddatblygu'r sgiliau, hyder, a chyfleoedd sydd eu hangen i lwyddo mewn byd sy'n fwyfwy deinamig a chystadleuol.

Trwy gefnogaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) Medr a chyllid Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, mae PCYDDS yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon ar draws ei champysau yng Nghymru a'u cymunedau ehangach. Mae'r buddsoddiadau hyn yn galluogi i'r Brifysgol adeiladu ecosystem menter ffyniannus ble mae dysgu a arweinir gan arloesi, creu busnes, cyflogadwyedd, a chyfnewid gwybodaeth yn cael eu hymgorffori ar draws ei gweithgarwch addysgu, ymchwil ac ymgysylltiad dinesig. Drwy roi gallu entrepreneuraidd i'w dysgwyr a darparu strwythurau cymorth hygyrch, mae PCYDDS yn helpu i sicrhau bod mentrau, gyrfaoedd llawrydd, mentrau cymdeithasol, a busnesau newydd yn gallu ffynnu.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae gweithgarwch menter a ddarparwyd trwy Dîm Menter y Brifysgol wedi cynnwys gweithdai menter wedi'u hintegreiddio yn y cwricwlwm, sgyrsiau gan gyn-fyfyrwyr sy'n entrepreneuriaid, grantiau dechrau busnes, rhaglenni datblygu busnes a gweithio'n llawrydd, cyfleoedd mentora, a chymorth un i un wedi'i deilwra ar gyfer myfyrwyr a graddedigion. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn wedi cryfhau cyflogadwyedd myfyrwyr, cefnogi arloesi, a chyfrannu at ddatblygiad economaidd rhanbarthol wrth atgyfnerthu ymrwymiad strategol PCYDDS i ddatblygu entrepreneuriaid, arloeswyr, a symbylwyr newid y dyfodol.

Mae menter ac entrepreneuriaeth yn parhau i chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein hamgylchedd prifysgol modern, gan gefnogi nid yn unig twf ac arloesi, ond hefyd cyfoethogi profiad myfyrwyr, arfer academaidd, ac effaith sefydliadol o fwn cymunedau lleol a rhanbarthol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gweithgarwch menter ar draws y brifysgol wedi dangos gwerth ymgorffori meddylfryd entrepreneuraidd o fewn addysgu, ymchwil, gwasanaethau proffesiynol, ac ymgysylltu allanol, gan helpu i baratoi dysgwyr a staff ar gyfer tirlun economaidd a chymdeithasol sy'n datblygu'n gyflym iawn.

I fyfyrwyr, mae gweithgareddau menter ac entrepreneuraidd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau, hyder a'r gallu i addasu sydd eu hangen ar gyfer swyddi a hunangyflogaeth yn y dyfodol. Trwy weithdai, mentora, prosiectau diwydiant byw, lleoliadau interniaeth, a chymorth i ddechrau busnes newydd, mae myfyrwyr yn dod i gysylltiad yn amlach ac amlach â phrofiad o ddatrys problemau'r byd go iawn a dysgu a arweinir gan arloesi wedi'u cefnogi gan y Tîm Menter a darlithwyr. Mae addysg menter yn cefnogi datblygiad sgiliau trosglwyddadwy fel cyfathrebu, arweinyddiaeth, gwytnwch, creadigrwydd, gwaith tîm, ac ymwybyddiaeth fasnachol, sydd i gyd yn werthfawr iawn i gyflogwyr. Yn bwysig, mae gweithgarwch menter hefyd yn galluogi i'n myfyrwyr ystyried entrepreneuriaeth fel llwybr gyrfa dilys, gan gefnogi'r rhai sy'n dymuno lansio gyrfaoedd llawrydd, mentrau cymdeithasol, mentrau creadigol, neu fusnesau a allai ehangu'n gyflym. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflogadwyedd, dilyniant, a gwydnwch gyrfa hirdymor graddedigion.

Mae ymrwymiad y brifysgol i entrepreneuriaeth hefyd yn ymestyn tu hwnt i raddio trwy gymorth parhaus i ddatblygu menter cyn-fyfyrwyr. Mae busnesau a arweinir gan gyn-fyfyrwyr yn cyfrannu'n sylweddol at economïau rhanbarthol trwy greu swyddi, arloesi, ymgysylltu â chymunedau, a gweithgarwch y gadwyn gyflenwi. Yn ystod y cyfnod adrodd, fe gryfhaodd ymgysylltiad cyn-fyfyrwyr â gweithgarwch cefnogi mentora, rhwydweithio, a menter y cysylltiadau rhwng graddedigion, myfyrwyr presennol, a phartneriaid diwydiant. Mae entrepreneuriaid sy'n gyn-fyfyrwyr hefyd yn gweithredu fel modelau rôl ac maent wedi dychwelyd i'r Brifysgol i gyflwyno gweithdai a sgyrsiau ysbrydoledig niferus, gan helpu i ysbrydoli cenedlaethau myfyrwyr y dyfodol gan atgyfnerthu cenhadaeth ddinesig ac economaidd ehangach y brifysgol.

O safbwynt academaidd, mae menter ac entrepreneuriaeth yn hysbysu cynllun cwricwlwm, arferion addysgu, a gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth yn fwy a mwy. Mae staff academaidd yn ymgorffori egwyddorion menter i raglenni ar draws ystod o ddisgyblaethau, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu  heriau seiliedig ar y diwydiant, dulliau arloesi, a chyfleoedd dysgu cymhwysol. Mae'r gweithgarwch hwn yn cryfhau perthnasedd y cwricwlwm a chyfredEdd academaidd  gan sicrhau bod rhaglenni'n parhau i ymateb i anghenion newidiol yn y farchnad lafur, datblygiadau technolegol, a sectorau sy'n dod i'r amlwg.

Mae gweithgarwch menter ac arloesi hefyd yn cyfrannu at gyfnewid ymchwil a gwybodaeth drwy annog cydweithio rhwng timau academaidd, busnesau, sefydliadau sector cyhoeddus, a chymunedau. Gan weithio gyda'r Adran INSPIRE ehangach mae'r Tîm Menter wedi helpu Partneriaethau i ddatblygu trwy weithgarwch menter, creu cyfleoedd ar gyfer ymchwil cydweithredol, ymgynghori, masnacheiddio, a phrosiectau a arweinir gan arloesi sy'n darparu effaith academaidd a chymdeithasol. Yn gynyddol, mae prifysgolion yn cydnabod bod ymagweddau entrepreneuraidd nid yn unig yn cefnogi creu busnesau, ond hefyd diwylliant arloesi ehangach, ymgysylltu dinesig, a deilliannau ymchwil cymhwysol.

Mae datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn parhau'n fudd sylweddol arall sy'n gysylltiedig â gweithgarwch menter ac entrepreneuriaeth. Mae staff gwasanaethau academaidd a phroffesiynol sy'n rhan o fentrau menter yn datblygu gwell ymwybyddiaeth fasnachol, sgiliau gweithio mewn partneriaeth, profiad o reoli prosiectau, a dealltwriaeth o ecosystemau arloesi. Mae ymgysylltiad staff â sefydliadau allanol, cyflogwyr, ac entrepreneuriaid yn helpu i gryfhau perthnasoedd â diwydiant a chreu cyfleoedd ar gyfer gwaith cydweithredol, datblygu cyllid, ac arfer addysgu cymhwysol. Mae datblygu staff entrepreneuraidd hefyd yn cefnogi ystwythder sefydliadol ac yn annog diwylliant o arloesi ar draws y brifysgol.

Yn ogystal, mae gweithgarwch menter yn sail i strategaeth sefydliadol ac yn cyfrannu at rôl ehangach y brifysgol fel sefydliad angor o fewn economi'r rhanbarth. Mae prifysgolion yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi twf lleol trwy gadw graddedigion yn yr ardal, datblygu sgiliau, cefnogi arloesi, ac ymgysylltu â busnesau. Mae busnesau newydd a busnesau bach sy'n codi o ecosystemau prifysgolion yn cyfrannu at arallgyfeirio economaidd, creu swyddi, cynhyrchedd, a gwytnwch cymunedol. Mae rhaglenni menter hefyd yn helpu i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol a rhanbarthol trwy annog arloesi sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, mentrau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, ac ymagweddau cynhwysol at gymorth busnes.

Mae cyfraniad economaidd ehangach gweithgarwch menter prifysgolion yn fwyfwy arwyddocaol o fewn agendau polisi cenedlaethol a rhanbarthol. Mae prifysgolion yn cefnogi ecosystemau entrepreneuriaeth trwy gysylltu dysgwyr, ymchwilwyr, cyflogwyr, buddsoddwyr, gwneuthurwyr polisi, a sefydliadau cymunedol. Trwy gefnogi deori yn y Matrics Arloesi a'r Egin, rhwydweithiau arloesi, a gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth, rydym yn helpu i symbylu

mewnfuddsoddiad, annog mabwysiadu arloesi, a chryfhau cystadleurwydd rhanbarthol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd sy'n wynebu trawsnewid economaidd, lle gall PCYDDS gefnogi adfywio, trawsnewid digidol, twf diwydiannau creadigol, a datblygu'r economi gwyrdd.

Yn bwysig, mae ein gweithgarwch menter ac entrepreneuriaeth hefyd yn cefnogi symudedd cymdeithasol a chynhwysiant trwy ehangu mynediad i gyfleoedd arloesi a chymorth busnes. Gall myfyrwyr a graddedigion o amrywiol gefndiroedd gyrchu mentora, hyfforddiant, cyllid, a rhwydweithiau proffesiynol na fyddent o bosibl ar gael iddynt fel arall. Mae hyn yn cyfrannu at gyfranogiad economaidd mwy cynhwysol ac yn helpu i sicrhau bod cyfleodd entrepreneuriaeth yn hygyrch ar draws cymunedau a rhanbarthau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r brifysgol wedi parhau i gryfhau ei hecosystem menter trwy bartneriaethau cydweithredol, rhaglenni cymorth wedi'u targedu, integreiddio'r cwricwlwm, a gwell ymgysylltu â diwydiant a rhanddeiliaid cymunedol. Caiff gweithgarwch menter ei ymgorffori'n gynyddol ar draws addysgu, ymchwil a chyflogadwyedd yn hytrach na gweithredu fel swyddogaeth ar ei phen ei hun. Mae'r ymagwedd integredig hon yn sicrhau bod entrepreneuriaeth ac arloesi yn parhau i ddarparu buddiannau mesuradwy ar gyfer myfyrwyr, staff, cyn-fyfyrwyr, cyflogwyr, a'r economi ehangach.

# Uchafbwyntiau

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES
GOOD UNIVERSITY GUIDE 2026
UNIVERSITY OF THE YEAR FOR TEACHING QUALITY

Mae'r acolâd yn cydnabod mai PCYDDS yw sefydliad arweiniol y DU o ran ansawdd addysgu, gan adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu profiad eithriadol i fyfyrwyr, dulliau addysgu arloesol, a deilliannau cryf i raddedigion. Mae'r dyfarniad wedi'i seilio ar ddangosyddion cenedlaethol o foddhad myfyrwyr, rhagoriaeth addysgu, a chymorth academaidd, yn ogystal â llwyddiant y Brifysgol wrth feithrin amgylchedd dysgu cynhwysol sy'n grymuso myfyrwyr o bob cefndir i gyrraedd eu potensial.

Meddai'r Athro Elwen Evans, CB, Is-Ganghellor PCYDDS:

"Rydym wrth ein bodd i gael ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd Academaidd. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn adlewyrchu ymrwymiad, arloesi ac angerdd ein staff, sy'n ymroi i sicrhau bod pob myfyriwr yn PCYDDS yn cael eu cefnogi i lwyddo.

"Mae ein ffocws bob amser wedi bod ar ddarparu addysgu rhagorol a phrofiad addysgol trawsnewidiol, ac mae'r wobr hon yn dyst i gryfder y genhadaeth honno."

Mae'r *Good University Guide* yn amlygu dull personol PCYDDS o ddysgu, ei chymuned glos, a'i phartneriaethau cryf â diwydiant a chyflogwyr, sy'n rhoi sgiliau a chyfleodd gwerthfawr i fyfyrwyr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r gydnabyddiaeth genedlaethol hon hefyd yn adeiladu ar gyfres o gyraeddiadau diweddar i PCYDDS, gan gynnwys dod yn 1af yng Nghymru ac 2il yn y DU yn nadansoddiad *The Times and Sunday Times* o'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ('NSS').

Ychwanegodd yr Athro Evans:

"Nid ar gyfer ein Prifysgol yn unig mae'r wobr hon. Mae ar gyfer ein myfyrwyr, graddedigion a chymunedau ledled Cymru a thu hwnt. Mae'n foment falch i holl deulu PCYDDS."

**Arbenigwyr PCYDDS-IICED wedi'u Hanrhydeddu â Gwobr Fawreddog am Ddatblygu Addysg Entrepreneuraidd mewn Ysgolion**

Mae Athrofa Ryngwladol er Datblygiad Entrepreneuraidd Creadigol (IICED) Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) wedi ennill yr anrhydedd uchaf mewn addysg yng nghynhadledd yr Athrofa Busnesau Bach ac Entrepreneuriaeth (ISBE), a gynhaliwyd yn Sheffield y flwyddyn hon. Wedi'u cydnabod am eu gwaith arloesol ym maes addysg entrepreneuraidd, cyflwynwyd y wobr i dîm PCYDDS -IICED yn lleoliad hanesyddol Eglwys Gadeiriol Sheffield, gan dynnu sylw at eu cyfraniadau at drawsnewid addysg yng Nghymru a thu hwnt.

Mae gwaith PCYDDS-IICED yn cyd-fynd yn agos â'r nod "Cyfranwyr Creadigol Mentrus" a amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru. Gyda'r dasg gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau cenedlaethol, creodd PCYDDS-IICED nifer o raglenni datblygu athrawon drwy bartneriaethau â Gyrfa Cymru a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL).

Mae'r rhaglenni hyn, dan arweiniad yr Athro Emeritws Andy Penaluna, wedi grymuso athrawon ledled Cymru i integreiddio dysgu entrepreneuraidd i'w hystafelloedd dosbarth a datblygu dulliau arloesol o ennyn diddordeb myfyrwyr mewn meddwl creadigol a menter.

Meddai'r Athro Penaluna: "Dim ond rhan o'r broses yw datblygu rhaglenni hyfforddi newydd; mae'n cymryd ymrwymiad go iawn i wrando ar adborth gan athrawon cymwys a mireinio ein dull yn seiliedig ar eu mewnwelediadau. Mae PCYDDS bob amser wedi rhagori wrth gysylltu ag anghenion addysgwyr, ac mae wedi bod yn amhrisiadwy clywed yn uniongyrchol gan y rhai sy'n arwain creadigrwydd ac arloesi ar draws ysgolion Cymru."

Siaradodd Dr Felicity Healey-Benson, cyd-arweinydd ymyriadau rhanbarthol ar gyfer NAEL, am effaith y rhaglenni:

Meddai: "Mae ein hymchwil yn cipio lleisiau athrawon sy'n dod â Phedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru yn fyw, yn enwedig fel 'Cyfranwyr Creadigol Mentrus.' Trwy gyfnodau o weithdai, datblygu adnoddau, a chynlluniau peilot manwl yn Sir Gaerfyrddin, rydym wedi gweld ymroddiad addysgwyr Cymru i drosi polisi yn arfer ystyrlon. Mae'r gwaith cydweithredol hwn nid yn unig wedi sbarduno dulliau arloesol mewn dysgu entrepreneuraidd ond wedi dangos i ni sut i gefnogi'r trawsnewidiad hwn ymhellach."

Enillodd adroddiad PCYDDS-IICED, sef *An Entrepreneurial Education Pipeline: Lessons from School Teacher Training in Wales,* wobr categori addysg ISBE, gan danlinellu perthnasedd byd-eang addysg entrepreneuraidd mewn ysgolion.

Canmolodd Dr Trudie Murray o Brifysgol Dechnoleg Munster yn Iwerddon, a ddaeth yn ail, ac y mae ei hymchwil hefyd yn canolbwyntio ar addysg entrepreneuraidd, gyflawniadau PCYDDS:

Meddai: “Mae gweld effaith Cymru yn cael ei ddathlu ar y lefel hon yn ysbrydoledig. Mae'r gwaith a wnaed gan yr Athro Penaluna a'i dîm yn darparu gwersi gwerthfawr wrth ddatblygu addysg entrepreneuraidd ar draws pob cyfnod, neges sy'n atseinio yma yn Iwerddon."

Canmolodd yr Athro Norris Krueger, arbenigwr byd-eang blaenllaw mewn addysg entrepreneuraidd, hefyd PCYDDS-IICED:

Meddai: “Mae creu system addysg entrepreneuriaeth gynhwysfawr yn gofyn am weledigaeth a chalon, y mae'r Athro Penaluna a'i dîm yn meddu arnynt. Mae eu gwaith yng Nghymru bellach yn fodel ar gyfer dysgu entrepreneuraidd ledled y byd."

Gan adeiladu ar ei lwyddiant, mae PCYDDS-IICED wedi cwblhau gwaith gydag UNESCO yn ddiweddar, gan gefnogi arweinyddiaeth prifysgolion entrepreneuraidd ledled De America a'r Caribî. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt gyda'r OECD i ehangu'r ymdrechion hyn yn fyd-eang, gan atgyfnerthu rôl PCYDDS ymhellach fel arweinydd rhyngwladol ym maes addysg entrepreneuraidd.

Rhannodd Nikki Lawrence, Prif Weithredwr Gyrfa Cymru, ei llongyfarchiadau:

“Roedd Gyrfa Cymru yn falch iawn o weithio gyda'r Athro Penaluna ar rai datblygiadau dysgu proffesiynol ac adnoddau ar gyfer ysgolion. Roeddem yn falch iawn o'r canlyniadau a'r adborth cadarnhaol gan athrawon. Rydym yn llongyfarch yr Athro Penaluna a'r cyfranwyr ar eu gwobr papur gorau ISBE."

**Mae modwl Arloesi Entrepreneuraidd newydd wedi'i ddatblygu a bwriedir ei gyflwyno yn 2026.** Ceir amlinelliad o'r modwl isod.

Croeso i'r modwl Arloesi Entrepreneuraidd; mae'r ddau gysyniad a nodir yn y modwl hwn, sef 'entrepreneuriaeth' ac 'arloesi', yn perthyn yn gryf i’w gilydd. Cymaint felly fel bod y termau yn gyffredinol yn cael eu defnyddio yn gyfnewidiol, er nad yw arloesi yr un peth ag entrepreneuriaeth.

Bydd y modwl yn edrych ar yr arloesiadau aflonyddgar niferus sydd wedi'u cyflwyno gan gwmnïau entrepreneuraidd, megis y gyfrifiannell electronig, cerrynt trydan tonnog, ffilmiau sain, a'r injan tyrbojet ond yn ogystal â hynny bydd enghreifftiau diweddar o arloesi entrepreneuraidd sy'n cynnwys biotechnoleg, y cyfrifiadur personol, chwilotwyr y Rhyngrwyd, mentrau cymdeithasol a'r syniad o Gynaliadwyedd.

Dadleuir bod arloesi entrepreneuraidd yn un o wir ffynonellau mantais gystadleuol genedlaethol. Ac, er ein bod yn gwybod bod bron pob entrepreneur yn arloesi, nid p’un a yw entrepreneuriaid yn arloesi fydd y broblem go iawn, ond yn hytrach, pryd a ble maen nhw'n gwneud hynny.

Mae'r modwl hwn yn rhagarweiniol o ran ei natur ac yn darparu trosolwg o elfennau ac athroniaeth sylfaenol entrepreneuriaeth, yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth gefndir ar esblygiad a datblygiad modelau busnes gwirioneddol, cyn symud ymlaen i arfer cyfredol yn y maes. Mae cynnwys dangosol y modwl hwn yn cynnwys:

- Diffiniadau o entrepreneuriaeth, arloesi a chreadigrwydd.
- Modelau Busnes
- Effaith technoleg
- Arloesi byd-eang a chymdeithasol
- Arloesi a arweinir gan gynaliadwyedd
- Datblygu nodweddion entrepreneuraidd a chreadigol.
- Y gyrwyr ar gyfer arloesi, creadigrwydd ac entrepreneuriaeth.
- Penderfynyddion arloesi sefydliadol a chreadigrwydd sefydliadol, ac intrapreneuriaeth.
- Strategaethau ar gyfer cynhyrchu a datblygu syniadau.
- Asesu a dewis cysyniadau busnes dichonadwy, gan gynnwys camau datblygu cynnyrch newydd.
- Materion Eiddo Deallusol

Bydd sesiynau addysgu yn rhyngweithiol ac yn cynnwys myfyrwyr mewn ymarferion ymarferol, dadansoddi astudiaethau achos, adeiladu senarios a thrafodaethau. Bydd hyn yn hwyluso datblygu sgiliau dadansoddi, gwerthuso, syntheseiddio, cyfathrebu, tîm ac arweinyddiaeth trwy ddysgu hunangyfeiriedig, darganfod ac â chymorth cymheiriaid.

Bydd y dulliau asesu'n ffurfiannol trwy gwestiynu a gosod tasgau yn ystod sesiynau dysgu a thrwy ddau aseiniad, un cyflwyniad fideo a'r arddangosiad a gynhyrchir ar ddiwedd semester 2.

Amcanion:

- Dangos ymwybyddiaeth ddamcaniaethol ac ymarferol o greadigrwydd ac arloesi ar gyfer cyd-destunau unigol a sefydliadol.
- Galluogi'r myfyriwr i adnabod cyfleoedd a dewis prosesau arloesol ac entrepreneuraidd priodol mewn sefydliadau newydd a phresennol.

Deilliannau Dysgu:

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Gydnabod rôl creadigrwydd ac arloesi wrth ymateb i heriau byd-eang.
- Cymhwyso'r sgiliau maen nhw wedi'u dysgu i ddatblygu atebion newydd ac amgen.

Dysgu ac Addysgu:

Bydd fframwaith sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr yn cael ei ddefnyddio sy'n ysbrydoli chwilfrydedd ac yn datblygu dyheadau a chysyniadau'r unigolyn.  Bydd myfyrwyr yn dod yn gyfarwydd â chysyniadau, egwyddorion ac arferion sy'n ymwneud â'r pwnc trwy weithdai, seminarau ac entrepreneuriaid a fydd yn cael eu defnyddio fel siaradwyr gwadd.  Bydd y materion cysyniadol, damcaniaethol yn sail i'r dull – yn ystod darlithoedd wythnosol bydd y strategaeth addysgu yn y sesiynau hyn yn cynnwys trafodaeth grŵp, dadansoddi astudiaethau achos (ar bapur a fideo), clipiau dogfennol a chyfryngau eraill. Bydd sesiynau addysgu yn rhyngweithiol a byddant yn cynnwys myfyrwyr mewn ymarferion ymarferol a fydd yn datblygu dealltwriaeth ehangach ac yn darparu gweithgareddau estynedig i "ymestyn a herio" myfyrwyr yn eu dysgu a'u trafodaethau.

Bydd adfyfyrio a dadansoddi yn nodweddion allweddol i gefnogi'r fethodoleg dysgu drwy brofiadau hon.

## Grant Cronfa Dyfodol Entrepreneuriaeth



Mynediad at gyllid yw un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin sy'n wynebu unigolion â'r uchelgais i ddechrau busnes. Mae PCYDDS yn mynd i'r afael â'r her hon drwy ddarparu grantiau cychwyn busnes o £500, gan roi'r gefnogaeth hanfodol i fyfyrwyr a graddedigion diweddar sydd ei hangen i droi syniadau'n gweithredu.

Mae'r cyllid hwn yn darparu sbardun i entrepreneuriaid drwy dalu am gostau hanfodol fel cofrestru busnes, datblygu prototeip, creu gwefan, neu brynu offer - camau ymarferol sy'n symud cysyniad yn agosach at ddod yn fusnes hyfyw. Trwy gael gwared ar y baich ariannol cychwynnol, mae'r grantiau hyn yn caniatáu i ddarpar entrepreneuriaid ganolbwyntio ar adeiladu eu syniadau yn hyderus.

Mae'r effaith yn ymestyn y tu hwnt i'r unigolyn. Mae grantiau cychwyn busnes yn ehangu cyfranogiad trwy alluogi pobl o bob cefndir i gael mynediad at gyfleoedd entrepreneuraidd, gan sicrhau nad yw arloesi yn cael ei gyfyngu gan amgylchiadau personol. Mae busnesau a gefnogir yn y modd hwn yn fwy tebygol o dyfu, creu swyddi, a chyfrannu at ddatblygiad economaidd rhanbarthol.

Trwy’r grantiau £500 hyn (cyhoeddwyd 18 ohonynt), mae PCYDDS nid yn unig yn buddsoddi mewn mentrau newydd, ond hefyd yn ffyniant cymunedau yn y dyfodol. Mae'r gefnogaeth bwrpasol hon yn cryfhau cyflogadwyedd myfyrwyr a graddedigion, yn meithrin arloesi, ac yn tanlinellu rôl a gwerth y Brifysgol i'r rhanbarthau y mae'n eu cynrychioli.

## Cwrs Cychwyn Busnes a Gwaith Llawrydd




Cynhaliodd PCYDDS 3 Chwrs Cychwyn Busnes a Gwaith Llawrydd rhyngweithiol drwy gydol y flwyddyn yn wyneb yn wyneb ac ar-lein. Roedd yn ymdrin â phynciau fel y rhai a restrir isod a lle'r oedd modd, ffurfioli Cynfas Model Busnes wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer eu hanghenion a'u dyheadau unigol.

- Cymryd eich syniad a'i adeiladu yn gynnig cadarn i gwsmeriaid
- Deall sut i ddatblygu eich cynnyrch / gwasanaeth
- Prisio eich cynnyrch / gwasanaeth
- Ystyried datblygu ffrydiau refeniw
- Marchnata a phrisio eich cynnyrch neu wasanaeth

- Deall strwythurau cost
- Elfennau cyfreithiol masnachu gan gynnwys strwythurau cyfreithiol a threth
- Sut i redeg eich busnes eich hun, o gyllid i weinyddu, staff i adeiladau
- Tyfu eich busnes ac adeiladu busnes cynaliadwy at y dyfodol

## Allbynnau PCYDDS ar gyfer 2024/25

| Mesur | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n hyrwyddo entrepreneuriaeth yn eu hysgol academaidd neu adran | 10 |
| Buddsoddiad y Sector Preifat (PSI) i gefnogi Entrepreneuriaeth | 0 |
| Nifer y myfyrwyr a gyflwynwyd i entrepreneuriaeth ac arloesi | 1044 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu gallu entrepreneuraidd (sgiliau, gwybodaeth a phrofiad) | 149 |
| Nifer y myfyrwyr a'r graddedigion unigol sy'n derbyn cymorth i gymryd camau tuag at hunangyflogaeth neu ddechrau busnes (cymorth cyn cychwyn) | 320 |
| Nifer y busnesau unigol a ddechreuwyd gan fyfyrwyr a graddedigion (ar ôl dechrau). | 24 |

## I gloi

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i feithrin diwylliant o fenter ac entrepreneuriaeth, ac mae’n parhau i wneud hynny, gan gefnogi myfyrwyr, graddedigion diweddar, a staff i droi syniadau arloesol yn ganlyniadau pendant. Trwy gyfuniad o fentrau strategol, rhaglenni pwrpasol, a chyllid wedi'i dargedu, mae'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd ymarferol i unigolion ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd, profi cysyniadau busnes newydd, a chael mynediad at fentora gan weithwyr proffesiynol profiadol.

Mae myfyrwyr yn elwa o weithdai, rhaglenni cychwyn busnes, a grantiau sy'n eu galluogi i arbrofi gyda syniadau busnes mewn amgylchedd risg isel, ac mae graddedigion diweddar yn cael eu cefnogi gyda thyfu mentrau y tu hwnt i leoliad y Brifysgol. Anogir staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuraidd trwy ddatblygiad proffesiynol, cyfnewid gwybodaeth, a phrosiectau cydweithredol, gan atgyfnerthu ecosystem arloesi fywiog ar draws y sefydliad.

Mae'r strwythur cymorth cynhwysfawr hwn wedi arwain at effeithiau mesuradwy, gan gynnwys lansio busnesau cychwynnol yn llwyddiannus, creu cyfleoedd cyflogaeth lleol, a gwella twf economaidd y rhanbarth. Trwy arfogi ei chymuned â'r wybodaeth, yr hyder a'r adnoddau i fynd ar drywydd mentrau entrepreneuraidd, mae'r Brifysgol yn dangos ei hymrwymiad parhaus i annog arloesi, meithrin creadigrwydd a meddylfryd mentrus sydd o fudd i unigolion a'r gymdeithas ehangach.